

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â dewis, paratoi a blendio amrywiaeth o sbeisys a pherlysiâu i gynhyrchu cymysgeddau sbeisys yn barod ar gyfer coginio, er enghraifft:

- cymysgeddau sbeisys sych
- past e.e. cyrri gwyrdd Thai

Gallai sbeisys gynnwys cwmin a sinsir; gallai pherlysiâu fod yn frenhinllys (basil) neu'n goriander ffres. Mae'r safon yn ymwneud â'r dulliau paratoi a ddefnyddir i wneud y cymysgeddau sbeisys a pherlysiâu ynghyd â thechnegau coginio, lle bo hynny'n berthnasol.

Mae'r safon hon yn canolbwyntio ar y wybodaeth a'r sgiliau technegol y mae eu hangen i baratoi a chymysgu cymysgeddau sbeisys a pherlysiâu; fodd bynnag, dylid ei hasesu yng nghyd-destun ehangach arferion gweithio diogel a hylan. Argymhellir cyfeirio at yr NOS canlynol, a ddewisir am eu bod yn briodol i'r rôl ac i'r sefydliad, ar y cyd â'r sgiliau a'r wybodaeth dechnegol ar gyfer y safon:

- Cynnal diogelwch bwyd sylfaenol mewn arlwyo
- Cynnal diogelwch bwyd mewn amgylchedd cegin
- Rhoi cyngor sylfaenol ar alergenau i gwsmeriaid
- Lleihau risg alergenau i gwsmeriaid

Pan fyddwch chi wedi cwblhau'r safon hon, byddwch chi'n gallu dangos eich dealltwriaeth o'r canlynol, a'ch gallu i:

- Baratoi a chymysgu cymysgeddau sbeisys a pherlysiâu

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. Dewis y math o gynhwysion a faint sydd eu hangen ar gyfer y cymysgedd sbeisys / blend perlysiâu
2. Gwirio'r cynhwysion i sicrhau eu bod yn bodloni safonau ansawdd
3. Dewis a defnyddio'r offer a'r cyfarpar yn gywir i baratoi a chymysgu cymysgeddau sbeisys a pherlysiâu
4. Cyfuno'r cynhwysion yn unol â gofynion y cymysgedd sbeisys neu berlysiâu
5. Prosesu'r cymysgedd sbeisys / perlysiâu i fodloni gofynion
6. Sicrhau bod gan y cymysgedd sbeisys / blend perlysiâu'r blas, y lliw, yr arogl a'r tewychedd cywir, a bod y maint yn gywir
7. Sicrhau bod y cymysgedd sbeisys / blend perlysiâu ar y tymheredd cywir i'w ddal a'i weini
8. Storio unrhyw gymysgeddau sbeisys / perlysiâu a goginiwyd neu heb eu coginio na fyddant yn cael eu defnyddio ar unwaith mewn ffordd sy'n gwarchod y blas, y lliw, yr arogl a'r tewychedd, yn unol â rheoliadau diogelwch bwyd

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. Sut i ddewis y math cywir o gynhwysion, eu hansawdd a faint sydd eu hangen i fodloni gofynion y cymysgedd sbeisys / blend perlysiâu
2. Pa bwyntiau ansawdd i chwilio amdanynt mewn cynhwysion cymysgedd sbeisys
3. Pam dylech chi roi gwybod am unrhyw broblemau gyda'r sbeisys, perlysiâu neu gynhwysion eraill, ac i bwy
4. Beth yw'r offer a'r cyfarpar cywir a'r rhesymau dros eu defnyddio wrth gyflawni'r dulliau paratoi a choginio gofynnol
5. Sut i gyflawni pob un o'r dulliau paratoi yn unol â gofynion y cymysgedd sbeisys / blend perlysiâu
6. Y tymereddau cywir ar gyfer coginio/tostio sbeisys
7. Sut i adnabod pan fydd gan sbeisys unigol a chymysgeddau sbeisys y lliw, y blas a'r tewychedd cywir, a bod y maint yn gywir
8. Sut i orffen a stori'r cymysgeddau sbeisys / perlysiâu
9. Sut i leihau a chywiro camgymeriadau cyffredin mewn cymysgeddau sbeisys / perlysiâu
10. Sut i gydbwysu blas, ansawdd, lliw, tewychedd a safon y cymysgedd sbeisys / blend perlysiâu terfynol
11. Pa bwyntiau ansawdd sy'n gysylltiedig â chymysgeddau sbeisys / perlysiâu
12. Y tymereddau a'r amodau cywir ar gyfer dal a storio cymysgeddau sbeisys / perlysiâu
13. Sut i storio cymysgeddau sbeisys / perlysiâu

Cwmpas/Ystod

1. Cynhwysion

13.1 sbeisys a pherlyisiau ffres

13.2 sbeisys a pherlyisiau sych

13.3 llyisiau

2. Dulliau paratoi

2.1 glanhau a thrimio

2.2 pwyso/mesur

2.3 torri

2.4 mathru

2.5 pwyo

2.6 malu

2.7 cymysgu

3. Cyfarpar

3.1 peiriant malu sbeisys

3.2 breuan a phestl

3.3 cylllyll

Paratoi a chymysgu cymysgeddau sbeisys a pherlysiâu

Datblygwyd gan People 1st

Fersiwn rhif 3

Dyddiad cymeradwyo 01 Maw 2022

Dyddiad Adolygu Dangosol 28 Chwef 2027

Dilysrwydd Ar hyn o bryd

Statws Gwreiddiol

Sefydliad cychwynol People 1st

RCU gwreiddiol PPL2PC33

Galwedigaethau perthnasol Cogydd, Cynorthwy-ydd cegin

Cyfres/Set Lletygarwch - Coginio Proffesiynol

Geiriau Allweddol paratoi, cymysgu, cymysgedd, sbeisys, perlysiâu
